# cARTrefu: Creu artistiaid o breswylwyr

## Rhaglen gyfranogi a mentora celf genedlaethol mewn cartrefi gofal

Amcangyfrifir bod **80%** o breswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal yn byw gyda dementia.

80%

Yn **2013**, bu'r Gymdeithas Alzheimer yn arolygu perthnasau i breswylwyr mewn cartrefi gofal, a gwelwyd bod llai na hanner ohonynt yn teimlo bod aelod eu teulu yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

2013

age Cymru

Ym mis **Ebrill 2015**, datblygwyd y rhaglen cARTrefu gan Age Cymru

pwrpas y rhaglen oedd cynyddu'r nifer o gyfleoedd i breswylwyr a staff gymryd rhan yn y celfyddydau a datblygu a mentora artistiaid i gynnal sesiynau i bobl mewn amgylchiadau gofal.

Cafodd **artistiaid proffesiynol** yng Nghymru eu recriwtio gan Age Cymru, a chawsant eu cefnogi gan fentoriaid proffesiynol i gynnal sesiynau cyfranogol creadigol yn wythnosol gyda phreswylwyr, staff ac aelodau'r teulu, dros 8 - 12 wythnos, ...

Celfyddydau perfformio | Barddoniaeth/ rhyddiaith | Celfyddydau gweledol | Cerddoriaeth

... i ysbrydoli ac ailgynnau diddordeb mewn creadigrwydd.

8 Wyth wythnos | Sesiynau dwy awr | Pedwar mentor | Un ar bymtheg o artistiaid

Cynhaliwyd cyfnod cyntaf y prosiect rhwng **2015 a2017**, ...

... cyfnod 2 rhwng **2017 a 2019**, ...

12 Deuddeg wythnos | Sesiynau dwy awr | Tri mentor | Deuddeg artist

gyda'r cyfnod presennol yn rhedeg o fis **Medi 2019** at ddiwedd mis **Rhagfyr 2021**.

Mae **3217** o breswylwyr cartrefi gofal nyrsio a phreswyl, staff, gwirfoddolwyr ac aelodau teulu mewn **194** cartrefu gofal wedi cymryd rhan ers cychwyn y rhaglen.

Mae gwerthusiad annibynnol o gyfnod cyntaf y rhaglen, gan Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru ym Mhrifysgol Bangor, wedi datgan bod y rhaglen wedi cael **effaith sylweddol** ar lesiant pobl hŷn yn ogystal ag **agweddau staff** at breswylwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw â dementia.

Cafodd staff yr hyder i arwain gweithgareddau creadigol eu hunain, ac roeddynt yn fwy parod i ganfod profiadau diwylliannol y tu allan i'r gwaith.

Staff yr hyder

### Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

Er i'r gwerthusiad hwn gynnig tystiolaeth gref o effaith y rhaglen cARTrefu, teimlwyd y byddai dadansoddiad **Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau** cynnig tystiolaeth bellach ar y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd.

Mae dadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau yn casglu gwybodaeth er mwyn datgan sut mae newid yn cael ei wneud drwy fesur **canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol** ac **economaidd** ac yn defnyddio gwerthoedd ariannol i'w cynrychioli.

### Gwerth cymdeithasol

## £4.53 - £9.08

O'r dadansoddiad hwn, gwelwyd bod cARTrefu yn darparu gwerth cymdeithasol rhwng **£4.53** a **£9.08** ar gyfer bob punt a fuddsoddwyd.

Yn ôl gwerthusiad a rhagdybiaethau manwl yn seiliedig ar ymchwil flaenorol, yr Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau bras yw **£6.48** ar gyfer bob punt a fuddsoddwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.

### Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

## £6.48

Mae gwaddol arbennig cARTrefu yn cartrefi gofal yn mynd y tu hwnt i **werthfawrogiad mwy** o'r celfyddydau, ac i mewn i **elfennau hanfodol** gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Soniodd staff am y ffordd mae'r sesiynau wedi **gwella** eu perthynas gyda phreswylwyr.

> *"Roedd mor braf ei gweld hi'n cael hwyl ac yn edrych fel hi ei hun eto."*
>
> *Rheolwr Cartref Gofal*

Mae cARTrefu hefyd wedi dylanwadu ar ymarfer personol yr artistiaid, gan arwain at nifer o **ffilmiau byr, recordiadau sain** a **theithio o amgylch arddangosfeydd celf gweledol.**

Ar y cyfan, mae gan y rhaglen cARTrefu werth cymdeithasol, ac yn parhau i gael **effaith gadarnhaol** ar y sector gofal cymdeithasol.

age Cymru | The Baring Foundation | Cefnogi Creadigrwydd / Cyngor Celfyddydau Cymru / The Arts Council of Wales / Supporting Creativity | Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru / Dementia Services Development Centre Wales | Prifysgol Bangor University | Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia CADR Centre for Ageing & Dementia Research

Cyflwynir y rhaglen cARTrefu gan Age Cymru a fe'i hariennir gan The Baring Foundation a Chyngor Celfyddydau Cymru. Arweiniwyd y gwerthusiad annibynnol gan Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru, Prifysgol Bangor a'i gefnogi gan Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia.